Trosolwg Thema Cam Cynnydd 3 – AWYR IACH

Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni fyw yn fwy cynaliadwy yn ein hardal leol?

| | |
|---|---|
| **Iechyd a Lles**  | **Sut gall y penderfyniadau rwy'n eu gwneud helpu i ofalu am fy lles fy hun, pobl eraill, a'r byd naturiol?** Yn ystod y cyfnod hwn, bydd ein plant yn archwilio sut mae'r penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud yn effeithio ar eu hiechyd, lles pobl eraill, ac amgylchedd ein cymuned leol, gan gysylltu eu dysgu â lleoliadau fel Ffairfach, Dinefwr, Llandeilo a phreswylwyr cartref hen bobl. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt a'u profiadau blaenorol i wneud dewisiadau gwybodus ac ystyriol, gan ysgrifennu ac ymhelaethu ar benderfyniadau sy'n gwella lles pobl a'r amgylchedd, casglu a dadansoddi data i ddeall effaith eu dewisiadau, ac adeiladu cyflwyniadau neu weithgareddau digidol sy'n annog gofal am eraill a'r byd naturiol. Drwy'r gweithgareddau hyn, byddant yn gweld sut gall eu dewisiadau bob dydd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd pobl a natur yn eu cymuned. |
| **Dyniaethau.**  | **Sut mae'r ffordd rydyn ni'n byw yn ein cymuned yn effeithio ar yr amgylchedd lleol, a sut gallwn ni ddefnyddio ein lleisiau a'n syniadau i helpu cadw ein 'Awyr Iach' yn iach?** Yn ystod y tymor hwn, bydd y disgyblion yn archwilio sut mae gweithgareddau dynol yn ein cymuned leol yn effeithio ar yr amgylchedd. Drwy ddefnyddio'r ardal fel "labordy awyr agored", byddant yn arsylwi sut mae pobl yn rhyngweithio â natur—cerdded, defnyddio ceir, chwaraeon a thaclo sbwriel—ac yn cofnodi effaithiau cadarnhaol a negyddol. Byddant yn tynnu lluniau neu greu fideos i ddogfennu eu canfyddiadau, gan ddefnyddio sgiliau rhifedd i gyfri ac adrodd yn ôl drwy graffiau neu ddeunydd digidol. Yn olaf, byddant yn ymchwilio un gweithgaredd yn fanylach ac yn dysgu sut gall newid ymddygiad helpu diogelu ein hamgylchedd a'n "Hawyr Iach". |
| **Gwyddoniaeth.** ″  | **Sut mae pethau byw yn dibynnu ar awyr iach ac adnoddau naturiol, a sut mae gweithredoedd pobl yn effeithio ar eu gallu i oroesi?** Bydd dysgwyr yn archwilio'r byd naturiol yn ardal Dinefwr, gan gynnwys y parcdir, y coetiroedd a glannau'r afon, i ddeall bod pethau byw yn dibynnu ar ei gilydd i oroesi. Drwy arsylwi, ymchwilio a chasglu data yn yr amgylchedd lleol, byddant yn adnabod patrymau mewn natur ac yn dysgu sut mae planhigion, anifeiliaid a phobl yn cystadlu am adnoddau fel aer, dŵr a golau. Byddant yn archwilio sut mae nodweddion organebau lleol yn eu helpu i fyw yn eu cynefinoedd, ac yn ystyried sut mae gweithredoedd dynol, megis defnydd tir, twristiaeth a thraffig, yn gallu cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar awyr iach a phethau byw. Trwy ddefnyddio technoleg i arsylwi, cofnodi a datrys problemau, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'u cyfrifoldeb i ofalu am yr amgylchedd lleol. |
| **Celfyddydau Mynegiannol**  | **Pa rôl all celf chwarae wrth godi ymwybyddiaeth o gynaladwyedd yn ein cymuned?** Mae ffocws Cel far artistiaid lleol fel Heledd Wyn a Seren Stacey yn annog dysgwyr i archwilio ac ymateb i'r byd naturiol drwy greadigrwydd, gan wneud cysylltiadau â'r thema *Awyr Iach* a natur leol Llandeilo. Maent yn arbrofi gyda deunyddiau ac offer, myfyrio ar eu gwaith eu hunain ac eraill, ac yn deall sut mae artistiaid yn cyfleu naws, syniadau ac emosiynau. Trwy drafod, cynllunio a chyflwyno gwaith celf, maent yn datblygu sgiliau |

   

| | |
|---|---|
| | llythrennedd, rhifedd (patrymau, cymesuredd) a digidol (creu ac olygu delweddau). Mae'r gwaith yn meithrin ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd ac yn annog dysgwyr i gyfrannu'n gadarnhaol i'w hamgylchedd. |

**Cyd-destun Lleol:**




